

O'R CYNRADD
I'R UWCHRADD:

Ceri Grisdale
Jones



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl / our national mission

Wedi ei magu yng Nghaernarfon, aeth Ceri i Gaerdydd i'r Brifysgol ac wedi derbyn gradd mewn Hanes aeth ymlaen i gymhwyso fel athrawes gynradd ym mhrifysgol Caerdydd.

"Roeddwn erioed wedi mwynhau gweithio gyda plant, yn dysgu gymnasteg yn y gwyliau iddynt a chyfnod yn gweithio mewn gweryll yn yr America. Mae'n siwr fod dylanwad fy rhieni, un yn athrawes gynradd a'r llall yn athro uwchradd, wedi dylanwadu arnaf hefyd.

"Rwy'n credu i'r cynradd apelio ar y pryd gan fy mod wedi arfer gweithio gyda plant iau, a hefyd doeddwn i ddim am gyfyngu fy hun i un pwnc."

Wedi cyfnod yn y De, penderfynodd Ceri a'i theulu symud yn ôl i'r Gogledd ond doedd swyddi cynradd parhaol ddim yn hawdd eu cael. Swyddi dros dros oedd ar gael yn bennaf, ac wrth i un swydd cyfnod mamolaeth ddod i ben gwelodd Ceri y cynllun pontio yn cael ei hysbysebu.

"Roedd yr amseru yn berffaith a dweud y gwir, ro'n i'n awyddus i gael her wahanol ac yn teimlo y byddai hyn yn rhoi opsiwn arall i fi ar gyfer y dyfodol.

"Fe gymerodd ychydig o amser i fi setlo, yn enwedig gan mod i'n cychwyn yn y cyfnod clo, ond roedd cefnogaeth rithiol ar gael ac roedd y gwaith yn cynyddu yn raddol er mwyn rhoi cyfle i fi arfer ag ef. Yn y pendraw yr un yw'r sgiliau addysgu yn y cynradd a'r uwchradd, dim ond fod angen addasu y ffordd chi'n cyfathrebu.

"Rwyf hefyd wedi cael y cyfle i addysgu sawl pwnc yn yr uwchradd ac mae fy mhrofiad cynradd wedi bod yn werthfawr i hynny, a bydd o gymorth pellach mae'n siwr wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno.

"I fi'n bersonol roeddwn yn awyddus i drïo rhywbeth newydd a rhoi her i fi fy hun, mae gwaith addysgu yn hynod amrywiol ac mae hynny yn apelio i fi – pob diwrnod yn wahanol. Mae'r cam hefyd wedi rhoi hyder i fi, yn gwybod y gallaf addysgu yn y ddwy sector, ac yn hollbwysig i fi, medru gwneud hynny drwy'r Gymraeg."

#AddysguCymru
www.addysgwyr.cymru